CYNGOR TREF NEFYN

# Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau

**Egwyddorion Cyffredinol**

1. Mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl y safonau uchaf o ymddygiad gan holl aelodau cymwys perthnasol. Rôl yr aelodau yw gwasanaethu'r Cyngor Tref sy'n eu cyflogi trwy roi cyngor, gweithredu ei bolisïau, a darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae'n rhaid iddynt ymddwyn gydag uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd.

**Atebolrwydd**

2. Mae aelodau cymwys yn gweithio i'r Cyngor Tref ac yn gwasanaethu'r awdurdod hwnnw yn ei gyfanrwydd. Maent yn atebol i'r awdurdod hwnnw ac mae ganddynt ddyletswydd iddo. Mae'n rhaid iddynt weithredu yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn y Cod hwn, gan gydnabod dyletswydd pob aelod o'r sector cyhoeddus i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yn rhesymol ac yn unol â'r gyfraith.

**Amhleidioldeb Gwleidyddol**

3. Mae'n rhaid i aelodau cymwys y Cyngor Tref ddilyn yr holl bolisïaua fynegwyd yn gyfreithlon, a rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w safbwyntiau personol neu wleidyddol eu hunain ymyrryd â'u gwaith. Pan fydd aelodau cymwys dan gyfyngiadau gwleidyddol (oherwydd y swydd sydd ganddynt, natur y gwaith y maent yn ei wneud, neu'r cyflog a delir iddynt), mae'n rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu gweithgareddau gwleidyddol.

**Cysylltiadau a'r Cyhoedd, y Clerc a Chyflogeion Eraill**

4. Mae parch rhwng aelodau cymwys a'r Clerc yn hanfodol i Cyngor Tref da, a dylid cadw cysylltiadau gwaith ar sail broffesiynol. Dylai aelodau cymwys ymdrin â'r cyhoedd, aelodau eraill a'r Clerc a chyflogeion eraill yn gydymdeimladol, yn effeithlon, a heb ddangos tuedd.

**Cydraddoldeb**

5. Mae'n rhaid i aelodau cymwys y Cyngor Tref gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb, fel y cytunwyd arnynt gan yr awdurdod Lleol, yn ogystal â gofynion y gyfraith.

**Stiwardiaeth**

6. Mae'n rhaid i aelodau cymwys y Cyngor Tref sicrhau eu bod yn defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt mewn ffordd gyfrifol a chyfreithlon, a rhaid iddynt beidio â defnyddio eiddo, cerbydau neu gyfleusterau eraill yr awdurdod at ddefnydd personol oni bai y'u hawdurdodwyd i wneud hynny.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

**Buddiannau Personol**

7. Er mai mater iddynt hwy eu hunain yw bywydau preifat cyflogeion cymwys, mae'n rhaid iddynt beidio â chaniatáu i'w buddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Mae'n rhaid iddynt beidio â chamddefnyddio eu statws swyddogol na gwybodaeth a gafwyd yn ystod eu aelodaeth i hybu eu buddiannau preifat hwy, na buddian
   - 7.1 unrhyw reolau perthnasol sy'n mynnu bod aelodau yn cofrestru a datgan buddiannau ariannol a buddiannau nad ydynt yn ariannol;
   - 7.2 unrhyw reolau perthnasol sy'n mynnu bod aelodau yn datgan lletygarwch neu roddion a gynigiwyd iddynt neu a dderbyniwyd ganddynt, oddi wrth unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gwneud neu'n ceisio gwneud busnes gyda'r Cyngor Tref, neu sy'n elwa neu'n ceisio elwa fel arall ar berthynas â'r Cyngor Tref. Mae'n rhaid i aelodau cymwys beidio â derbyn buddion gan drydydd parti oni bai y'u hawdurdodwyd i wneud hynny gan eu hawdurdod perthnasol.

**Chwythu'r Chwiban**

8. Pe byddai aelod cymwys yn dod yn ymwybodol o weithgareddau y mae'r aelod o'r farn eu bod yn anghyfreithlon, yn amhriodol, yn anfoesegol neu'n anghyson fel arall â'r Cod hwn, dylai'r aelod adrodd am y mater, gan weithredu yn unol â hawliau'r aelod a gweithdrefn adrodd gyfrinachol yr awdurdod perthnasol, neu unrhyw weithdrefn arall a luniwyd at y diben hwn.

**Trin Gwybodaeth**

9. Dylai didwylledd wrth ledaenu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau fod yn arferol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd mathau penodol o wybodaeth yn gyfrinachol neu'n sensitif ac felly'n amhriodol ar gyfer cynulleidfa eang. Pan fydd cyfrinachedd yn angenrheidiol er mwyn diogelu preifatrwydd neu hawliau eraill unigolion neu gyrff, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i unrhyw un heblaw am aelod, cyflogai awdurdod perthnasol neu unigolyn arall sydd â hawl i'w derbyn, neu y mae angen iddo/iddi gael mynediad ati er mwyn cyflawni ei swyddogaethau'n briodol. Ni ellir ystyried bod unrhyw beth yn y Cod hwn yn disodli rhwymedigaethau presennol cyfraith statudol neu gyfraith gwlad i gadw mathau penodol o wybodaeth yn gyfrinachol neu i'w datgelu.

**Penodi Staff**

10. Mae'n rhaid i aelodau cymwys y Cyngor Tref sy'n ymwneud â recriwtio a phenodi staff sicrhau bod penodiadau'n cael eu gwneud ar sail teilyngdod. Er mwyn osgoi unrhyw gyhuddiad posibl o duedd, mae'n rhaid i gyflogeion o'r fath beidio â bod yn rhan o unrhyw benodiad, neu unrhyw benderfyniadau eraill yn ymwneud â disgyblu, dyrchafu neu dâl ac amodau gwaith unrhyw gyflogai arall, neu ddarpar gyflogai, y mae'n perthyn iddo/iddi, neu y mae ganddo/ganddi berthynas bersonol agos ag ef/hi y tu allan i'r gwaith.

**Ymchwiliadau gan Swyddogion Monitro**

11. Pan fydd swyddog monitro Cyngor Gwynedd yn cynnal ymchwiliad yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 20004, mae'n rhaid i aelodau cymwys gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a wneir gan y swyddog monitro hwnnw/honno mewn cysylltiad ag ymchwiliad o'r fath.

CYNGOR TREF NEFYN

Arwyddwyd: Mared Llywelyn Williams

Cadeirydd 2025-2026

Dyddiad: 13/05/2025

Clerc: Pat Humphreys
Cae’r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com